

HYSBYSIAD YNGHYLCH GWELLIANNAU NOTICE OF AMENDMENTS

Cyflwynwyd ar 22 Ionawr 2016
Tabled on 22 January 2016

Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) Historic Environment (Wales) Bill

Ken Skates 17

Long title, page 1, line 3, after 'gardens', insert 'and a list of historic place names'.

Teitl hir, tudalen 1, llinell 3, ar ôl 'hanesyddol', mewnosoder 'a rhestr o enwau lleoedd hanesyddol'.

Ken Skates 18

Long title, page 1, line 3, leave out 'require local planning authorities to establish historic environment records relating to their' and insert 'establish historic environment records for local authority'.

Teitl hir, tudalen 1, llinell 3, hepgorer 'i'w gwneud yn ofynnol i awdurdodau cynllunio lleol sefydlu cofnodion amgylchedd hanesyddol sy'n ymwneud â'u hardaloedd' a mewnosoder 'i sefydlu cofnodion amgylchedd hanesyddol ar gyfer ardaloedd awdurdod lleol'.

Ken Skates 19

Section 1, page 1, after line 20, insert –

'() for the compilation of a list of historic place names in Wales (section 33),'.

Adran 1, tudalen 1, ar ôl llinell 21, mewnosoder –

'() ar gyfer llunio rhestr o enwau lleoedd hanesyddol yng Nghymru (adran 33),'.

Ken Skates 20

Section 1, page 1, line 21, leave out 'each local planning authority in Wales to prepare and publish a historic environment record relating to its area' and insert 'the compilation of a historic environment record for each local authority area in Wales'.



Adran 1, tudalen 1, llinell 22, hepgorer 'i bob awdurdod cynllunio lleol yng Nghymru lunio a chyhoeddi cofnod amgylchedd hanesyddol sy'n ymwneud â'i ardal' a mewnosoder 'ar gyfer llunio cofnod amgylchedd hanesyddol ar gyfer pob ardal awdurdod lleol yng Nghymru'.

Ken Skates **21**

Section 4, page 7, after line 34, insert—

'() In section 51 of that Act (ecclesiastical property), in subsection (3), after "under section" insert "1AD,".'

Adran 4, tudalen 7, ar ôl llinell 35, mewnosoder—

'() Yn adran 51 o'r Ddeddf honno (eiddo eglwysig), yn is-adran (3), ar ôl "under section" mewnosoder "1AD,".'

Ken Skates **22**

Section 13, page 20, after line 42, insert—

'(5) In section 51 of that Act (ecclesiastical property), in subsection (3), after "1AD," (inserted by section 4) insert "9ZL,".'

Adran 13, tudalen 20, ar ôl llinell 42, mewnosoder—

'(5) Yn adran 51 o'r Ddeddf honno (eiddo eglwysig), yn is-adran (3), ar ôl "1AD," (a fewnosodir gan adran 4) mewnosoder "9ZL,".'

Ken Skates **23**

Section 26, page 33, line 36, leave out 'after "sections 3," insert "" and insert 'for "sections 3," substitute "sections 2B, 3,'.

Adran 26, tudalen 33, llinell 40, hepgorer 'ar ôl "sections 3," mewnosoder "" a mewnosoder 'yn lle "sections 3," rhodder "sections 2B, 3,'.

Ken Skates **24**

Page 44, line 8, leave out section 34 and insert—

[] Historic environment records

- (1) The Welsh Ministers must compile and keep up to date a historic environment record for each local authority area in Wales.
- (2) A historic environment record is a record which provides—
 - (a) details of every building in the authority's area which is included in a list compiled or approved under section 1 of the Planning (Listed Buildings and Conservation Areas) Act 1990 (c.9),



- (b) details of every conservation area in the authority's area which is designated under section 69 of that Act,
 - (c) details of every monument in the authority's area which is included in the Schedule compiled and maintained under section 1 of the Ancient Monuments and Archaeological Areas Act 1979 (c.46),
 - (d) details of each of the grounds in the authority's area which are included in the register of historic parks and gardens compiled and maintained under section 41A of that Act,
 - (e) details of every conflict site in the authority's area which the Welsh Ministers consider to be of historic interest,
 - (f) where a public authority (whether by itself or jointly with other persons) maintains a list of historic landscapes in Wales, details of every historic landscape in the local authority's area which is included in the list,
 - (g) details of every world heritage site in the authority's area,
 - (h) details of every other area or site or other place in the authority's area which the authority or the Welsh Ministers consider to be of local historic, archaeological or architectural interest,
 - (i) information about the way in which the historic, archaeological or architectural development of the authority's area, or any part of it, has contributed to the present character of the area or part and about how that character may be preserved,
 - (j) details of relevant investigations carried out in the authority's area and of the findings of those investigations, and
 - (k) a means of accessing details of every historic place name in the authority's area which is included in the list compiled and maintained under section 33.
- (3) In subsection (2)(e), "conflict site" means –
- (a) a battlefield or a site on which some other conflict involving military forces took place, or
 - (b) a site on which significant activities relating to a battle or other such conflict as is mentioned in paragraph (a) occurred.
- (4) In subsection (2)(f), "public authority" means a person certain of whose functions are functions of a public nature.
- (5) In subsection (2)(g), "world heritage site" means a site or other place or other thing which is cultural heritage or natural heritage within the meaning of the World Heritage Convention and is included in the World Heritage List mentioned in Article 11 of that Convention.
- (6) In subsection (5), "the World Heritage Convention" means the Convention concerning the Protection of the World Cultural and Natural Heritage adopted by the General Conference of the United Nations Educational, Scientific and Cultural Organisation at Paris on 16 November 1972.



- (7) In subsection (2)(h), the reference to a local authority's area includes, in the case of an authority whose area includes part of the seashore, a reference to any part of the territorial sea that lies seawards from that part of the shore and forms part of Wales (within the meaning given by the Government of Wales Act 2006 (c.32)).
- (8) In subsection (2)(j), "relevant investigation", in relation to a local authority's area, means –
 - (a) an investigation by the authority or the Welsh Ministers for the purpose of obtaining information of historic, archaeological or architectural interest relating to the area, and
 - (b) any other investigation for that purpose which the Welsh Ministers consider appropriate to include in the record.
- (9) The Welsh Ministers may by regulations amend this section so as to vary the meaning of "historic environment record".
- (10) Before making regulations under subsection (9), the Welsh Ministers must consult –
 - (a) each local authority in Wales, and
 - (b) such other persons as the Welsh Ministers consider appropriate.
- (11) For the purposes of this section, an area or site or other place or other thing is to be regarded as being in a local authority's area if any part of it is in the area.
- (12) In this section and in section 37, "local authority" means a county council or a county borough council.'

Tudalen 44, llinell 9, hepgorer adran 34 a mewnosoder –

[] **Cofnodion amgylchedd hanesyddol**

- (1) Rhaid i Weinidogion Cymru lunio cofnod amgylchedd hanesyddol ar gyfer pob ardal awdurdod lleol yng Nghymru a'i gadw'n gyfredol.
- (2) Mae cofnod amgylchedd hanesyddol yn gofnod sy'n darparu –
 - (a) manylion pob adeilad yn ardal yr awdurdod sydd wedi ei gynnwys mewn rhestr a lunnir neu a gymeradwyir o dan adran 1 o Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhedredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 (p.9),
 - (b) manylion pob ardal cadwraeth yn ardal yr awdurdod sydd wedi ei dynodi o dan adran 69 o'r Ddeddf honno,
 - (c) manylion pob heneb yn ardal yr awdurdod sydd wedi ei chynnwys yn y Gofrestr a lunnir ac a gynhelir o dan adran 1 o Ddeddf Henebion Hynafol ac Ardaloedd Archaeolegol 1979 (p.46),
 - (d) manylion pob un o'r tiroedd yn ardal yr awdurdod sydd wedi eu cynnwys yn y gofrestr o barciau a gerddi hanesyddol a lunnir ac a gynhelir o dan adran 41A o'r Ddeddf honno,
 - (e) manylion pob safle gwrthdaro yn ardal yr awdurdod sydd o ddiddordeb hanesyddol ym marn Gweinidogion Cymru,



- (f) pan fo awdurdod cyhoeddus (pa un ai ar ei ben ei hun neu ar y cyd â phersonau eraill) yn cynnal rhestr o dirweddau hanesyddol yng Nghymru, fanylion pob tirwedd hanesyddol yn ardal yr awdurdod lleol sydd wedi ei chynnwys yn y rhestr,
 - (g) manylion pob safle treftadaeth y byd yn ardal yr awdurdod,
 - (h) manylion pob ardal neu safle arall neu fan arall yn ardal yr awdurdod sydd o ddiddordeb hanesyddol, archaeolegol neu bensaernïol lleol ym marn yr awdurdod neu Weinidogion Cymru,
 - (i) gwybodaeth am y ffordd y mae datblygiad hanesyddol, archaeolegol neu bensaernïol ardal yr awdurdod, neu unrhyw ran ohoni, wedi cyfrannu at gymeriad presennol yr ardal neu'r rhan a sut y gellir diogelu'r cymeriad hwnnw,
 - (j) manylion ymchwiliadau perthnasol a gynhelir yn ardal yr awdurdod a manylion canfyddiadau'r ymchwiliadau hynny, a
 - (k) dull o gael mynediad i fanylion pob enw lle hanesyddol yn ardal yr awdurdod sydd wedi ei gynnwys yn y rhestr a lunnir ac a gynhelir o dan adran 33.
- (3) Yn is-adran (2)(e), ystyr "safle gwrthdaro" yw –
- (a) maes brwydr neu safle lle y digwyddodd rhyw wrthdaro arall a oedd yn cynnwys lluoedd arfog, neu
 - (b) safle lle y digwyddodd gweithgareddau sylweddol a oedd yn ymwneud â brwydr neu unrhyw wrthdaro arall a grybwyllir ym mharagraff (a).
- (4) Yn is-adran (2)(f), ystyr "awdurdod cyhoeddus" yw person y mae rhai o'i swyddogaethau yn swyddogaethau o natur gyhoeddus.
- (5) Yn is-adran (2)(g), ystyr "safle treftadaeth y byd" yw safle neu fan arall neu beth arall sy'n dreftadaeth ddiwylliannol neu'n dreftadaeth naturiol o fewn yr ystyr a roddir i "cultural heritage" a "natural heritage" yng Nghonfensiwn Treftadaeth y Byd ac sydd wedi ei gynnwys yn Rhestr Treftadaeth y Byd a grybwyllir yn Erthygl 11 o'r Confensiwn hwnnw.
- (6) Yn is-adran (5), ystyr "Confensiwn Treftadaeth y Byd" yw'r Confensiwn ynghylch Diogelu Treftadaeth Ddiwylliannol a Naturiol y Byd a fabwysiadwyd gan Gynhadledd Gyffredinol Sefydliad Addysg, Gwyddoniaeth a Diwylliant y Cenhedloedd Unedig ym Mharis ar 16 Tachwedd 1972.
- (7) Yn is-adran (2)(h), mae'r cyfeiriad at ardal awdurdod lleol yn cynnwys, yn achos awdurdod y mae ei ardal yn cynnwys rhan o lan y môr, gyfeiriad at unrhyw ran o'r môr tiriogaethol sy'n gorwedd tua'r môr o'r rhan honno o'r lan ac sy'n rhan o Gymru (o fewn yr ystyr a roddir i "Wales" gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32)).
- (8) Yn is-adran (2)(j), ystyr "ymchwiliad perthnasol", mewn perthynas ag ardal awdurdod lleol, yw –
- (a) ymchwiliad gan yr awdurdod neu Weinidogion Cymru at ddiben cael gwybodaeth o ddiddordeb hanesyddol, archaeolegol neu bensaernïol sy'n ymwneud â'r ardal, a
 - (b) unrhyw ymchwiliad arall at y diben hwnnw y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried ei bod yn briodol ei gynnwys yn y cofnod.



- (9) Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau ddiwygio'r adran hon er mwyn amrywio ystyr "cofnod amgylchedd hanesyddol".
- (10) Cyn gwneud rheoliadau o dan is-adran (9), rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori—
 - (a) â phob awdurdod lleol yng Nghymru, a
 - (b) ag unrhyw bersonau eraill sy'n briodol ym marn Gweinidogion Cymru.
- (11) At ddibenion yr adran hon, mae ardal neu safle neu fan arall neu beth arall i'w ystyried fel pe bai mewn ardal awdurdod lleol os yw unrhyw ran o'r ardal, y safle, y man arall neu'r peth arall yn yr ardal.
- (12) Yn yr adran hon ac yn adran 37, ystyr "awdurdod lleol" yw cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol.'

Ken Skates

25

Section 35, page 45, line 40, leave out—

- '(1) A local planning authority—
 - (a) must make its historic environment record available for public inspection in such manner as it considers appropriate;
 - (b) must, where a person requests a copy of part of the authority's historic environment record or details accessed by means of the record and it appears to the authority that the request is reasonable, provide the person with a copy of that part of the record or those details;
 - (c) must make available to a person wishing to inspect its historic environment record advice on or assistance with retrieving and understanding information provided in the record or accessed by means of the record;
 - (d) must, where a person requests the retrieval of information provided in the authority's historic environment record or accessed by means of the record and it appears to the authority that the request is reasonable, compile for the person a document containing the information.
- (2) In assessing for the purposes of subsection (1)(b) or (d) whether a request is reasonable, the matters which the authority may take into account include any previous such requests made by or on behalf of the person concerned.
- (3) A local planning authority'

and insert—

- '() The Welsh Ministers—
 - (a) must make each historic environment record available for public inspection in such manner as they consider appropriate;
 - (b) must, where a person requests a copy of part of a historic environment record or details accessed by means of such a record, and it appears to the Welsh Ministers that the request is reasonable, provide the person with a copy of that part of the record or those details;



- (c) must make available to a person wishing to inspect a historic environment record advice on or assistance with retrieving and understanding information provided in the record or accessed by means of the record;
 - (d) must, where a person requests the retrieval of information provided in a historic environment record or accessed by means of such a record and it appears to the Welsh Ministers that the request is reasonable, compile for the person a document containing the information.
- () In assessing for the purposes of subsection (1)(b) or (d) whether a request is reasonable, the matters which the Welsh Ministers may take into account include any previous such requests made by or on behalf of the person concerned.
- () The Welsh Ministers’.

Adran 35, tudalen 45, llinell 41, hepgorer –

‘awdurdod cynllunio lleol –

- (a) rhoi ei gofnod amgylchedd hanesyddol ar gael er mwyn i’r cyhoedd edrych arno mewn unrhyw fodd sy’n briodol yn ei farn ef;
 - (b) pan fo person yn gofyn am gopi o ran o gofnod amgylchedd hanesyddol yr awdurdod neu fanylion y ceir mynediad iddynt drwy’r cofnod ac y mae’n ymddangos i’r awdurdod fod y cais yn rhesymol, ddarparu copi o’r rhan honno o’r cofnod neu’r manylion hynny i’r person;
 - (c) rhoi ar gael i berson sy’n dymuno edrych ar ei gofnod amgylchedd hanesyddol gyngor ar adalw a deall yr wybodaeth sydd wedi ei darparu yn y cofnod neu y ceir mynediad iddi drwy’r cofnod neu gynhorthwy i wneud hynny;
 - (d) pan fo person yn gofyn i wybodaeth sydd wedi ei darparu yng nghofnod amgylchedd hanesyddol yr awdurdod neu y ceir mynediad iddi drwy’r cofnod gael ei hadalw ac y mae’n ymddangos i’r awdurdod fod y cais yn rhesymol, lunio dogfen sy’n cynnwys yr wybodaeth i’r person.
- (2) Wrth asesu at ddibenion is-adran (1)(b) neu (d) a yw cais yn rhesymol, mae’r materion y caiff yr awdurdod eu hystyried yn cynnwys unrhyw geisiadau blaenorol o’r fath a wnaed gan y person o dan sylw neu ar ei ran.
- (3) Caiff awdurdod cynllunio lleol’

a mewnosoder –

‘Weinidogion Cymru –

- (a) rhoi pob cofnod amgylchedd hanesyddol ar gael er mwyn i’r cyhoedd edrych arno mewn unrhyw fodd sy’n briodol yn eu barn hwy;
- (b) pan fo person yn gofyn am gopi o ran o gofnod amgylchedd hanesyddol neu fanylion y ceir mynediad iddynt drwy gofnod o’r fath, ac y mae’n ymddangos i Weinidogion Cymru fod y cais yn rhesymol, ddarparu copi o’r rhan honno o’r cofnod neu’r manylion hynny i’r person;
- (c) rhoi ar gael i berson sy’n dymuno edrych ar gofnod amgylchedd hanesyddol gyngor ar adalw a deall yr wybodaeth sydd wedi ei darparu yn y cofnod neu y ceir mynediad iddi drwy’r cofnod neu gynhorthwy i wneud hynny;



- (d) pan fo person yn gofyn i wybodaeth sydd wedi ei darparu mewn cofnod amgylchedd hanesyddol neu y ceir mynediad iddi drwy gofnod o'r fath gael ei hadalw ac y mae'n ymddangos i Weinidogion Cymru fod y cais yn rhesymol, lunio dogfen sy'n cynnwys yr wybodaeth i'r person.
- () Wrth asesu at ddibenion is-adran (1)(b) neu (d) a yw cais yn rhesymol, mae'r materion y caiff Gweinidogion Cymru eu hystyried yn cynnwys unrhyw geisiadau blaenorol o'r fath a wnaed gan y person o dan sylw neu ar ei ran.
- () Caiff Gweinidogion Cymru'.

Ken Skates **26**

Section 35, page 46, line 18, after 'copy', insert 'or details'.

Adran 35, tudalen 46, llinell 18, ar ôl 'copi', mewnosoder 'neu fanylion'.

Ken Skates **27**

Page 46, line 24, leave out section 36.

Tudalen 46, llinell 24, hepgorer adran 36.

Ken Skates **28**

Section 37, page 47, line 2, leave out

'on—

- (a) the discharge of the duty under section 34 (including its discharge under arrangements of the kind referred to in section 36);
 - (b) the discharge of the duty under section 35(1);
 - (c) the exercise of the power under section 35(3).
- (2) A local planning authority must have regard to guidance issued under this section.
- (3) Before issuing guidance under this section, the Welsh Ministers must consult—
- (a) each local planning authority in Wales,'

and insert—

'to the bodies listed in subsection [*first subsection to be inserted by this amendment*] on—

- () the manner in which the bodies may contribute to the compilation of historic environment records and assist in keeping them up to date, and
 - () the use of historic environment records in the exercise of the bodies' functions.
- () The bodies are—
- (a) local authorities in Wales;
 - (b) National Park authorities in Wales;
 - (c) Natural Resources Wales.



- () The bodies listed in subsection [*first subsection to be inserted by this amendment*] must have regard to guidance issued under this section.
- () Before issuing guidance under this section, the Welsh Ministers must consult –
 - (a) the bodies listed in subsection [*first subsection to be inserted by this amendment*],’.

Adran 37, tudalen 47, llinell 2, hepgorer –

‘ar –

- (a) cyflawni’r ddyletswydd o dan adran 34 (gan gynnwys ei chyflawni o dan drefniadau o’r mathau y cyfeirir atynt yn adran 36);
 - (b) cyflawni’r ddyletswydd o dan adran 35(1);
 - (c) arfer y pŵer o dan adran 35(3).
- (2) Rhaid i awdurdod cynllunio lleol roi sylw i ganllawiau a ddyroddir o dan yr adran hon.
- (3) Cyn dyroddi canllawiau o dan yr adran hon, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori –
- (a) â phob awdurdod cynllunio lleol yng Nghymru,

a mewnosoder –

‘i’r cyrff a restrir yn is-adran [*yr is-adran gyntaf sydd i’w mewnosod gan y gwelliant hwn*] ar –

- () y modd y caiff y cyrff gyfrannu at lunio cofnodion amgylchedd hanesyddol a chynorthwyo i’w cadw’n gyfredol, a
 - () y defnydd o gofnodion amgylchedd hanesyddol wrth arfer swyddogaethau’r cyrff.
- () Y cyrff yw –
- (a) awdurdodau lleol yng Nghymru;
 - (b) awdurdodau Parciau Cenedlaethol yng Nghymru;
 - (c) Cyfoeth Naturiol Cymru.
- () Rhaid i’r cyrff a restrir yn is-adran [*yr is-adran gyntaf sydd i’w mewnosod gan y gwelliant hwn*] roi sylw i ganllawiau a ddyroddir o dan yr adran hon.
- () Cyn dyroddi canllawiau o dan yr adran hon, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori –
- (a) â’r cyrff a restrir yn is-adran [*yr is-adran gyntaf sydd i’w mewnosod gan y gwelliant hwn*],’.

Ken Skates

29

Section 40, page 50, after line 4, insert –

- ‘() In subsection (4) of that section, after “sections 8(5), 26C,” insert “55(5B),”’.

Adran 40, tudalen 50, ar ôl llinell 4, mewnosoder –

- ‘() Yn is-adran (4) o’r adran honno, ar ôl “sections 8(5), 26C,” mewnosoder “55(5B),”’.



Ken Skates

30

Section 40, page 50, line 5, after 'section', insert –

' –

- (a) after "an order under section" insert "55(5B),", and'.

Adran 40, tudalen 50, llinell 5, ar ôl 'honno', mewnosoder –

' –

- (a) ar ôl "an order under section" mewnosoder "55(5B),", a'.

Ken Skates

31

Section 41, page 50, line 35, leave out 'and 29 to' and insert ', 29, 30(1) to (5), 31 and'.

Adran 41, tudalen 50, llinell 36, hepgorer 'a 29 i' a mewnosoder ', 29, 30(1) i (5), 31 a'.

Ken Skates

32

Schedule 1, page 53, line 20, leave out '(6)(e), (f) or (g)' and insert '(7)'.

Atodlen 1, tudalen 53, llinell 20, hepgorer '(6)(e), (f) or (g)' a mewnosoder '(7)'.

Peter Black [R]

33

Section 11, page 12, line 36, leave out 'about'.

Adran 11, tudalen 12, llinell 36, hepgorer 'about'.

Peter Black [R]

34

Section 11, page 12, at the beginning of line 37, insert 'about'.

Adran 11, tudalen 12, ar ddechrau llinell 37, mewnosoder 'about'.

Peter Black [R]

35

Section 11, page 12, at the beginning of line 39, insert 'about'.

Adran 11, tudalen 12, ar ddechrau llinell 39, mewnosoder 'about'.

Peter Black [R]

36

Section 11, page 12, after line 40, insert –

- (c) specifying terms that must be included in a heritage partnership agreement;



- (d) enabling the Welsh Ministers to terminate by order a heritage partnership agreement or any provision of such an agreement.’.

Adran 11, tudalen 12, ar ôl llinell 40, mewnosoder –

- ‘(c) specifying terms that must be included in a heritage partnership agreement;
- (d) enabling the Welsh Ministers to terminate by order a heritage partnership agreement or any provision of such an agreement.’.

Peter Black [R]

37

Section 11, page 12, after line 40, insert –

- ‘() Regulations made under subsection (3)(a) must require the Welsh Ministers to consult the following persons before entering into a heritage partnership agreement under section 9ZA(1)(a) –
 - (a) the owner of the scheduled monument to which the proposed agreement relates;
 - (b) any occupier of the scheduled monument;
 - (c) any local authority in whose area the scheduled monument is situated;
 - (d) any local authority which is a guardian of the scheduled monument.
- () Regulations made under subsection (3)(a) must require the Welsh Ministers to consult the following persons before entering into a heritage partnership agreement under section 9ZA(1)(b) –
 - (a) the owner of the land to which the proposed agreement relates;
 - (b) any occupier of the land;
 - (c) any local authority in whose area the land is situated;
 - (d) any local authority which is a guardian of the land by virtue of this Act.’.

Adran 11, tudalen 12, ar ôl llinell 40, mewnosoder –

- ‘() Regulations made under subsection (3)(a) must require the Welsh Ministers to consult the following persons before entering into a heritage partnership agreement under section 9ZA(1)(a) –
 - (a) the owner of the scheduled monument to which the proposed agreement relates;
 - (b) any occupier of the scheduled monument;
 - (c) any local authority in whose area the scheduled monument is situated;



- (d) any local authority which is a guardian of the scheduled monument.
- () Regulations made under subsection (3)(a) must require the Welsh Ministers to consult the following persons before entering into a heritage partnership agreement under section 9ZA(1)(b) –
 - (a) the owner of the land to which the proposed agreement relates;
 - (b) any occupier of the land;
 - (c) any local authority in whose area the land is situated;
 - (d) any local authority which is a guardian of the land by virtue of this Act.’.

Peter Black [R]

38

Section 11, page 12, after line 40, insert –

- ‘() Regulations made under section (3)(*second paragraph inserted by amendment 36*) may specify provision that may be included in an order made by virtue of that paragraph, including provision enabling such orders to contain supplementary, incidental, transitory, transitional or saving provision.’.

Adran 11, tudalen 12, ar ôl llinell 40, mewnosoder –

- ‘() Regulations made under section (3)(*yr ail baragraff a fewnosodir gan welliant 36*) may specify provision that may be included in an order made by virtue of that paragraph, including provision enabling such orders to contain supplementary, incidental, transitory, transitional or saving provision.’.

Peter Black [R]

39

Section 28, page 37, line 29, leave out ‘about’.

Adran 28, tudalen 37, llinell 29, hepgorer ‘about’.

Peter Black [R]

40

Section 28, page 37, at the beginning of line 30, insert ‘about’.

Adran 28, tudalen 37, ar ddechrau llinell 30, mewnosoder ‘about’.

Peter Black [R]

41

Section 28, page 37, at the beginning of line 32, insert ‘about’.

Adran 28, tudalen 37, ar ddechrau llinell 32, mewnosoder ‘about’.



Peter Black [R]

42

Section 28, page 37, after line 33, insert –

- (c) specifying terms that must be included in a heritage partnership agreement;
 - (d) enabling the Welsh Ministers to terminate by order a heritage partnership agreement or any provision of such an agreement;
 - (e) enabling any local planning authority who is a party to the heritage partnership agreement to terminate the agreement, or any provision of the agreement, by order.
- () Regulations under subsection (3)(*second paragraph inserted by this amendment*) or (*third paragraph inserted by this amendment*) may specify the provision that may be included in orders made by virtue of those paragraphs, including provision enabling such orders to contain supplementary, incidental, transitory, transitional or saving provision.’

Adran 28, tudalen 37, ar ôl llinell 33, mewnosoder –

- (c) specifying terms that must be included in a heritage partnership agreement;
 - (d) enabling the Welsh Ministers to terminate by order a heritage partnership agreement or any provision of such an agreement;
 - (e) enabling any local planning authority who is a party to the heritage partnership agreement to terminate the agreement, or any provision of the agreement, by order.
- () Regulations under subsection (3)(*yr ail baragraff sydd i’w fewnosod gan y gwelliant hwn*) or (*y trydydd paragraff sydd i’w fewnosod gan y gwelliant hwn*) may specify the provision that may be included in orders made by virtue of those paragraphs, including provision enabling such orders to contain supplementary, incidental, transitory, transitional or saving provision.’

Peter Black [R]

43

Section 40, page 50, line 16, after ‘record’), insert –

’, or

- (b) regulations under section 39(7)(h) (Advisory Panel for Welsh Historic Environment: disqualification from membership for staff of specified organisations),’.

Adran 40, tudalen 50, llinell 16, ar ôl ‘hanesyddol’), mewnosoder –

’, neu

- (b) rheoliadau o dan adran 39(7)(h) (Y Panel Cyngori ar Amgylchedd Hanesyddol Cymru: anghymhwysu staff sefydliadau penodedig rhag bod yn aelodau),’.



Peter Black [R]

44

Section 40, page 50, line 19, leave out subsection (12).

Adran 40, tudalen 50, llinell 19, hepgorer is-adran (12).

